

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Alison Jones
Ltd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 17 Rhagfyr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 5 Ebrill 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	23
4.	Beth nesaf?.....	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Alison Jones Ltd yn 45 Ffordd Barri, Y Barri, CF63 1HX, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 17 Rhagfyr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Deintyddfa Alison Jones Ltd yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd ffocws y practis ar gleifion a gwelsom y staff yn ymddwyn yn gwrtais ac yn broffesiynol. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr offer deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella o ran y trefniadau ar gyfer cynnal gwiriadau ar gyffuriau a chyfarpar argyfwng, cyfarpar cymorth cyntaf a deunyddiau deintyddol.

Roedd angen gwneud gwelliannau i rai o'r trefniadau diogelwch tân.

Roedd angen cadw cofnodion cleifion manylach mewn rhai meysydd i roi tystiolaeth o'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion.

Roedd angen i'r practis ddiweddarau rhai polisïau a gweithdrefnau, a rhoi nifer o rai eraill ar waith.

Roedd angen cyflwyno arfarniadau staff rheolaidd.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth bod perchennog y practis yn rheoli ac yn arwain yn gadarn
- Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel
- Roedd y practis yn cynnal nifer o archwiliadau clinigol ac anghlinigol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth i gleifion, a sicrhau ei bod ar gael
- Rhai trefniadau diogelwch tân
- Gwiriadau rheolaidd ar gyffuriau a chyfarpar argyfwng, cyfarpar cymorth cyntaf a deunyddiau deintyddol er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad defnyddio ac yn ffit i'w defnyddio
- Meysydd sy'n ymwneud â chadw cofnodion proffesiynol
- Creu rhai polisiâu a gweithdrefnau, a diweddarau rhai eraill
- Cynnal arfarniadau staff rheolaidd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Alison Jones yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Barri yn Ne Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, derbynnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Mae gan Bractis Deintyddol Alison Jones Ltd gangen yng Nghaerdydd hefyd.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm cyfan y practis. Dywedodd y cleifion a wnaeth sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gynigir gan y practis. Nodwyd gennym fod y practis yn darparu gofal a thriniaeth mewn ffordd a oedd yn canolbwyntio'n amlwg ar y claf.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron mae'r canlynol:

"Proffesiynol iawn, staff cyfeillgar, y ddeintyddfa orau rwyf wedi ymweld â hi"

"Rwyf wedi bod yn dod yma ers sawl blwyddyn erbyn hyn. Rwyf bob amser yn cael galwad ffôn cyn fy apwyntiad. Dydw i ddim wedi cael unrhyw broblemau nac achos i gwyno am fy nhriniaeth. Os oes gen i broblem, y cyfan sydd angen i mi ei wneud yw ffonio a byddant yn ceisio fy ngweld cyn gynted â phosibl"

"Rwyf wedi defnyddio'r practis deintyddol hwn ers sawl blwyddyn ac nid wyf erioed wedi gweld unrhyw fai ar y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth atgoffa yn wych. Daliwch ati"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; nododd un claf:

"Rheoli'r amser mewn ffordd fwy realistig. Mae oedi bob tro, weithiau rwy'n gorfod aros hanner awr"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Yn ddieithriad, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod nifer o daflenni hyrwyddo iechyd, posteri a llyfrau ar gael i gleifion yn yr ardal aros yn ymwneud ag iechyd a hylendid y geg.

Gofal gydag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio swyddfa rheolwr y practis os oedd angen cael trafodaeth breifat wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â chlaf er mwyn cynnal urddas y cleifion.

Roedd gan y deintyddfeydd ddrysau y gellid eu cau pan oedd claf yn cael triniaeth, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas.

Roedd y practis wedi cwblhau rhestr wirio cyfrinachedd ym mis Hydref 2018, er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion. Nodwyd gennym bod polisi sicrhau ansawdd a oedd yn adlewyrchu'r 9 Egwyddor a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ei arddangos er mwyn i'r cleifion gael gafael ar yr wybodaeth hon yn hawdd.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

o hynny), gan nodi hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Lle'r oedd yn gymwys, dywedodd y cleifion hefyd eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Roedd costau triniaethau deintyddol y GIG yn cael eu harddangos i gleifion yn yr ardal aros. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn arddangos prisiau'r triniaethau deintyddol preifat. Rhaid i'r practis sicrhau bod y rhain yn cael eu harddangos.

Gwelsom fod enwau'r deintyddion a gwybodaeth amdanynt, oriau agor y practis a'r rhif ffôn argyfwng yn cael eu harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r practis. Roedd y rhif y tu allan i oriau hefyd yn cael ei roi ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd hysbysfyrddau yn yr ardal aros yn cynnwys gwahanol fathau o wybodaeth i gleifion. Gwelsom, fodd bynnag, eu bod yn anniben gyda llawer o daflenni a phosteri ar ben ei gilydd. Dylai'r practis aildrefnu'r hysbysfyrddau er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd ar gael yn hawdd.

Gwnaethom argymhell y dylai gwybodaeth ychwanegol gael ei chynnwys ar wefan y practis er mwyn gwella profiad y cleifion. Gwnaethom argymhell bod y practis yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau, ei bolisi cwynion a phrisiau triniaethau deintyddol preifat a'r GIG.

Gwelsom fod arwyddion y practis yn ddigonol ar y cyfan, er enghraifft, yn dangos lleoliad y deintyddfeydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwyddion i ddangos yr ardaloedd na chaniateir i gleifion fynd iddynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried y ffordd y caiff y wybodaeth sydd ar gael i gleifion ei threfnu a'i chynllunio er mwyn sicrhau ei bod ar gael a'i bod yn berthnasol.

Dylai'r practis adolygu cynnwys ei wefan er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf perthnasol i gleifion.

Dylai'r practis roi arwyddion ar bob drws sy'n arwain at ardaloedd i staff yn unig.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddod pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio cyfieithydd pe bai angen.

Gofal amserol

Dyweddod ychydig dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ymdrechu i weld cleifion ar y diwrnod pe bai angen apwyntiad brys.

Teimlai pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn rhoi'r dewis iddo aros neu wneud apwyntiad arall.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Lle roedd hynny'n gymwys, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Dangosodd adolygiad o gofnodion y cleifion fod y cleifion yn cael eu holi ynghylch eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis.

Hawliau pobl

Gwelsom fod pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a phobl ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad i'r practis o'r stryd. Roedd derbynfa'r practis, yr ardal aros ac un ddeintyddfa ar y llawr daear, ac yn hygyrch i bawb. Roedd ail ddeintyddfa ar y llawr cyntaf. Er bod y toiled ar y llawr daear yn ddigon mawr i gadair olwyn, nid oedd yn cynnwys canllawiau a gwnaethom awgrymu efallai y byddai'r practis yn dymuno eu gosod er budd eu cleifion.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion a oedd wedi'i arddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ardal aros. Gwelsom fod angen ei ddiweddarau er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i gleifion. Roedd angen i'r weithdrefn gynnwys gwybodaeth am AGIC a'r grwpiau eiriolaeth sydd ar gael i gefnogi cleifion sydd am godi pryder.

Gwelsom fod gwybodaeth am unrhyw gwynion gan gleifion yn cael ei storio yn ffeiliau'r cleifion unigol. Er mwyn sicrhau bod modd asesu unrhyw themâu neu dueddiadau'n iawn, gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried cadw gwybodaeth am gwynion mewn un lle.

Roedd y practis yn cynnal arolygon cleifion bob chwe mis. Caiff y wybodaeth ei dadansoddi gan y prif ddeintydd a'i thrafod gyda'r staff yn ystod cyfarfodydd staff. Gwnaethom awgrymu bod y practis yn rhoi adborth i gleifion ar unrhyw gamau gweithredu y maent yn eu cymryd o ganlyniad i'r arolwg.

Nid oedd y practis yn cofnodi unrhyw adborth anffurfiol, a byddem yn ei gynghori i roi proses ar waith i'w gofnodi, er enghraifft llyfr cofnodion yn y dderbynfa. Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i ystyried cynnwys math o adborth ar ffurf "dywedoch chi: gwnaethom ni" mewn ymateb i sylwadau ac awgrymiadau'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi cwynion er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a'i fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017.

Dylai'r practis ystyried y broses ar gyfer storio a rheoli gwybodaeth am gwynion er mwyn sicrhau y gall fonitro themâu a thueddiadau'n hawdd.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Fodd bynnag, roedd nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella.

Roedd angen gwneud gwelliannau i rai agweddau ar ddiogelwch tân, gan gynnwys hyfforddiant staff, canllawiau ac asesu risg.

Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-X a dihalogi yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Roedd angen cynnal gwiriadau mwy rheolaidd ar gyffuriau a chyfarpar argyfwng, yn ogystal â'r cyfarpar cymorth cyntaf. Roedd angen gwiriadau mwy rheolaidd ar ddeunyddiau deintyddol hefyd er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad defnyddio.

Roedd angen gwneud gwelliannau i elfennau o'r gwaith o gadw cofnodion cleifion hefyd er mwyn dangos y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd.

Roedd angen i nifer o bolisiâu a gweithdrefnau gael eu creu.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles staff y practis, a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, gan gynnwys asesiadau risg perthnasol, er mwyn helpu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion o ganlyniad i'r asesiadau risg. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi na gweithdrefn ar waith i sicrhau bod y safle yn addas at ei ddiben.

Roedd yr ardal i'r staff yn unig yn fach iawn ac nid oedd yn cynnwys llawer o le storio. Gwelsom fod yr ystafell staff yn cael ei defnyddio hefyd i storio'r peiriant puro dŵr a'r peiriant datblygu pelydr-X, yn ogystal â bod yn ystafell stoc. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried trefniadau eraill ar gyfer storio cyfarpar a stoc.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod ei fod wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom hefyd fod y larymau tân wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau i rai o'r trefniadau diogelwch tân eraill. Er bod gan y practis asesiad risg tân ar waith, roedd wedi'i ddyddio Mehefin 2017 ac roedd angen ei adolygu. Nid oedd modd i ni weld tystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân na bod y practis wedi cynnal ymarferion tân rheolaidd. Mae angen i'r practis roi polisi diogelwch tân ar waith hefyd. Yn ystod taith o'r practis, nodwyd gennym fod bag o sbwriel yn rhwystro un o'r allanfeydd tân. Rhaid i'r practis sicrhau ei bod yn hawdd cyrraedd yr allanfeydd tân bob amser.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n gywir ac roedd polisi gwaredu gwastraff clinigol ar waith hefyd. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynhyrchion mislif yn nhoiled y cleifion ac mae angen hynny.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis ffeil o restrau gwirio rheoli 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) yn cynnwys y taflenni data diogelwch perthnasol. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth berthnasol ar sylweddau peryglus a chyfarwyddiadau ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel. Roedd y deunyddiau i gyd yn cael eu storio'n ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddatblygu polisi/gweithdrefn er mwyn sicrhau bod y safle yn addas i'r diben.

Rhaid i'r practis adolygu ei drefniadau diogelwch tân er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y canlynol:

- Adolygu'r asesiad risg tân

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant tân
- Cynnal ymarferion tân rheolaidd
- Rhoi polisi diogelwch tân ar waith
- Sicrhau mynediad hawdd i allanfeydd tân bob amser

Rhaid i'r practis osod bin cynhyrchion misglwyf yn y toiled i gleifion.

Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd mwyafrif helaeth y cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05². Gwelsom fod rhywfaint o'r paent ar waliau'r ystafell ddihalogi yn plicio a bod angen ei adnewyddu. Nid oedd sinc golchi dwylo penodol yn yr ystafell ddihalogi, fel yr argymhellir gan WHTM 01-05 a gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried gosod un.

Roedd gan y practis raglen ar waith ar gyfer glanhau'r cyfarpar deintyddol. Gwelsom fod cofnod yn cael ei gadw o'r profion a gynhelir ar y cyfarpar a ddefnyddir, a chedwir gwybodaeth mewn cysylltiad â'r profion. Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn sicrhau y cynhelir profion rheolaidd ar y cyfarpar a ddefnyddir, er mwyn helpu i ddangos eu bod yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol.

² Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

Gwelsom gofnodion i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Ym mis Hydref 2018 y cynhaliodd y practis archwiliad rheoli heintiau ddiwethaf. Gwnaethom awgrymu efallai y byddai'r practis yn dymuno ystyried defnyddio adnodd archwilio Cymreig yn y dyfodol, yn unol â WHTM 01-05.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod waliau'r ystafell ddihalogi yn addas at eu diben a bod modd eu glanhau'n effeithiol.

Dylai'r practis ystyried gosod sinc golchi dwylo yn yr ystafell ddihalogi.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng (claf yn llewygu). Fodd bynnag, gwelsom fod y tiwbiau aer wedi dyddio. Archebodd rheolwr y practis rai newydd yn eu lle ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom fod profion yn cael eu cynnal ar rai eitemau o gyfarpar, megis y peiriannu dadebru ac ocsigen, er mwyn helpu i ddangos eu bod yn parhau'n addas i'w defnyddio. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd gwiriadau ar y cyffuriau argyfwng. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod hyn yn cael ei wneud.

Gwelsom hefyd fod gan y practis focs cymorth cyntaf. Serch hyn, roedd rhai o'r eitemau wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio. Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y bocs cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod yr eitemau o fewn eu dyddiadau defnyddio, a bod eitemau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio yn cael eu tynnu o'r bocs a rhai newydd yn cael eu rhoi yn eu lle. Byddem yn awgrymu bod y practis yn defnyddio rhestr wirio i wneud hyn.

Gwelsom gofnodion i ddangos bod y rhan fwyaf o'r aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfwng meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Fodd bynnag, gwelsom nad oedd hyfforddiant un aelod o'r staff yn gyfredol. Rhaid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael arfarniad ffurfiol o berfformiad bob blwyddyn.

Nid oedd gan y practis bolisi argyfyngau meddygol ar waith, a ddylai amlinellu trefniadau'r practis ar gyfer ymdrin ag argyfwng meddygol/dadebru, a rhoi dealltwriaeth glir i'r staff o'r broses a'u rolau. Rhaid i'r practis gyflwyno polisi argyfyngau meddygol a sicrhau y caiff ei ledaenu i'r staff.

Dywedodd y practis wrthym y byddai'n mynd â'r meddyginiaethau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio i fferyllfa leol i'w gwaredu'n ddiogel. Fodd bynnag, ni wnaeth y practis gael cadarnhad bod y fferyllfa leol wedi'u derbyn. Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo gofnodion priodol i ddangos bod meddyginiaethau sydd wedi darhod yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyffuriau a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf.

Rhaid i'r practis gael gwared ar yr eitemau sydd heibio'u dyddiadau defnyddio yn y bocs cymorth cyntaf a chael rhai newydd yn eu lle, a gwirio'r cynnwys yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn aros o fewn dyddiadau defnyddio.

Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn flynyddol.

Rhaid i'r practis roi polisi argyfyngau meddygol ar waith a sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r manylion.

Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo'r ddogfennaeth briodol ar gyfer trosglwyddo meddyginiaethau sydd wedi darhod wrth gael gwared arnynt.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Rhaid i'r practis ddiweddarau'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdodau diogelu perthnasol.

Gwelsom dystysgrifau yn cadarnhau bod y mwyafrif o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn plant ac oedolion. Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael yr hyfforddiant hwn yn rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdodau diogelu oedolion a phlant perthnasol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion yn rheolaidd.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod y deintyddfeydd yn lân, a'u bod yn cynnwys yr offer priodol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai deunyddiau deintyddol yn y deintyddfeydd a oedd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio. Nid oedd y practis yn cynnal gwiriadau rheolaidd o'r deintyddfeydd, a gwnaethom argymhell y dylai hyn gael ei wneud er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau deintyddol yn addas i'w defnyddio.

Daethom i'r casgliad bod trefniadau ar waith gan y practis i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Y rheswm dros hyn yw am fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol am ddefnyddio offer pelydr-X ar gael ac yn gyfredol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol a'u bod yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC). Er i ni weld tystysgrifau rhai aelodau o'r staff clinigol, nid oedd modd i ni weld bod pob un ohonynt wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio perthnasol. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol yn cael hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddu pelydr-X wedi'u cwblhau'n fel rhan o'r gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth dynnu lluniau pelydr-X ac yn nodi lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen. Gwnaethom argymhell efallai y byddai'r practis yn

dymuno defnyddio Adnodd Gwella Ansawdd Deoniaeth Cymru³, fel ffordd o hyrwyddo arfer da wrth ddefnyddio ymbelydredd ïoneiddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyflenwadau deintyddol a'r offer er mwyn sicrhau bod pob eitem o fewn ei dyddiad defnyddio, ac yn ddiogel i'w defnyddio. Rhaid cael gwared â'r holl ddeunyddiau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio yn ddiogel, a hynny ar unwaith.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol yn cael hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn unol â'r gofynion a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal nifer gyfyngedig o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y meysydd a gafodd eu harchwilio yn cynnwys radiograffau, amseroedd aros cleifion, mynediad i wybodaeth, rhestr wirio rheolaethau COSHH, cadw cofnodion ac archwiliadau pelydr-X. Fel rhan o'i raglen o welliant parhaus, gwnaethom argymhell y dylai'r practis gynnwys archwiliadau rhoi'r gorau i smygu ac archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau hefyd.

Nid oedd gan y practis bolisiâu ar waith ar gyfer trefniadau i dderbyn cleifion na'u hasesu, rhoi diagnosis a'u trin. Rhaid i'r practis ddatblygu'r polisiâu hyn, a'u rhoi ar waith.

³ <https://dental.walesdeanery.org/quality-improvement/patient-safety-human-factors/qi-tool-ionising-radiation>

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried cynnwys archwiliadau rhoi'r gorau i smygu ac archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau fel rhan o'u rhaglen gyffredinol.

Rhaid i'r practis ddatblygu a gweithredu polisïau ar gyfer y trefniadau ar gyfer derbyn cleifion a'r trefniadau ar gyfer asesu cleifion, gwneud diagnosis a'u trin.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom fod y practis wedi cynnal adolygiadau gan gymheiriaid yn y gorffennol. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn gwneud hyn mwyach. Dywedwyd wrthym ei fod yn bwriadu ailddechrau rhaglen o adolygiadau gan gymheiriaid ar gyfer y deintyddion yn fuan. Byddem yn awgrymu hefyd fod y nyrsys deintyddol yn ystyried trefnu cyfarfodydd rheolaidd at ddibenion trafod materion clinigol.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried gwneud cais am adnodd datblygu practisau Adnodd Matrics Aeddfedwydd Deoniaeth Cymru⁴. Mae'r Adnodd Matrics Aeddfedwydd yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ar y cyfan, gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu gwybodaeth cleifion ar ffurf electronig ac ar ffurf papur. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai ffeiliau yn cynnwys data cleifion yn cael eu cadw ar silffoedd dros nos yn ardal y dderbynfa. Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfarpar glanhau yn cael ei gadw'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr holl ddata am gleifion eu storio'n ddiogel.

⁴ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom fod y cofnodion a welsom yn glir ac yn ddarllenadwy. Fodd bynnag, argymhellwn fod angen cofnodi mwy o fanylion er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn adlewyrchu'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion.

Roedd y meysydd i'w gwella'n cynnwys y canlynol:

- Cofnodi'r cyngor a roddir ar roi'r gorau i smygu
- Cofnodi archwiliadau o'r geg
- Cofnodi sgrinio canser y geg
- Cyngor hybu iechyd, megis gwybodaeth am hylendid y geg
- Cofnodi cydsyniad deallus
- Cofnodi lleoliad yr anesthetig lleol
- Dylid adolygu a diweddarau'r polisi yn unol â chanllawiau NICE
- Asesiadau risg i'w cynnal yn seiliedig ar bydredd yn y dannedd, materion yn ymwneud â'r deintgig, traul y dannedd a chanser y geg
- Dylid cofnodi adegau pan nodir bod angen rhagnodi gwrthfotigau
- Dylid cofnodi canfyddiadau clinigol radiograffau'n gyson.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau a'u bod wedi cael y cyfle i fynychu hyfforddiant priodol i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Gwelsom fod tîm arwain cryf ar waith, a oedd yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion a'r staff.

Roedd gan y practis nifer o brosesau archwilio ar waith er mwyn helpu i ddangos ansawdd, gwelliannau a datblygiadau.

Roedd rhai bylchau yn hyfforddiant y staff yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Roedd angen i'r practis sicrhau hefyd bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau rheolaidd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Alison Jones Ltd, a chaiff ei chefnogi gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Y prif ddeintydd hefyd yw'r rheolwr cofrestredig⁵ a'r unigolyn cyfrifol enwebedig⁶. Gwelsom fod tîm y practis yn drefnus ac yn rhagweithiol iawn wrth ddarparu gofal diogel ac

⁵ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

⁶ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli

effeithiol i'w gleifion. Disgrifiodd pob aelod o dîm y practis linellau atebolrwydd ac adrodd clir. Lle y nodwyd meysydd i'w gwella gennym, gweithredodd y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis yn brydlon a gwnaethant ddangos parodrwydd ac ymrwymiad i ymdrin ag unrhyw faterion ac awgrymiadau.

Dywedodd y staff wrthym ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau gan bob aelod o dîm y practis. Nodwyd gennym fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu yn y practis yn dda. Gwelsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, a bod cofnodion o'r cyfarfodydd yn cael eu llunio. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis rannu'r cofnodion â'r staff yn hytrach na rhoi copïau yn eu ffeiliau staff.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n anelu at sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y polisiau yn cael eu hadolygu a'u dyddio, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ei fod yn edrych ar y polisi diweddaraf.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC o dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis rannu copïau o gofnodion y cyfarfod â'r staff a gofyn iddynt eu llofnodi er mwyn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rôl. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cefnogaeth ac anogaeth gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Fel y soniwyd yn gynharach, roedd angen i rai aelodau o'r staff

ymgymryd â hyfforddiant penodol yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y staff wedi cael arfarniad o'u perfformiad o fewn y 12 mis diwethaf. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar y gweill i ddechrau gwneud hyn ym mis Mai 2019.

Nodwyd gennym fod gan bob aelod o'r staff contract cyflogaeth a disgrifiad swydd oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Roedd gan y practis hefyd raglen o hyfforddiant sefydlu ar gyfer aelodau newydd o'r staff.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd a Chynlluniau Datblygu Proffesiynol wedi'u nodi fel canlyniadau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Alison Jones Ltd

Dyddiad arolygu: 17 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Alison Jones Ltd

Dyddiad arolygu: 17 Rhagfyr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym pa gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis ystyried y ffordd y caiff y wybodaeth sydd ar gael i gleifion ei threfnu a'ui chynllunio er mwyn sicrhau ei bod ar gael a'i bod yn berthnasol.	Safonau Iechyd a Gofal 4.2 Gwybodaeth Cleifion	Tacluso'r hysbysfwrdd, gan sicrhau bod gwybodaeth ond yn cael ei harddangos unwaith	Joanne Tyler	Cwblhawyd
Dylai'r practis adolygu cynnwys ei wefan er		Adolygu'r wefan unwaith y mis	Joanne Tyler	1 Mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf perthnasol i gleifion.</p> <p>Dylai'r practis roi arwyddion ar bob drws sy'n arwain at ardaloedd i staff yn unig.</p>		Wedi archebu arwyddion ar gyfer toiled y staff ac ardaloedd eraill y staff	Joanne Tyler	Cwblhawyd
<p>Rhaid i'r practis ddiweddarau ei bolisi cwynion er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a'i fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017.</p> <p>Dylai'r practis ystyried y broses ar gyfer storio a rheoli gwybodaeth am gwynion er mwyn sicrhau y gall fonitro themâu a thueddiadau'n hawdd.</p>	Rheoliad 21 (4) (a)	Diweddarau'r Polisi ymbelydredd	Alison Jones	3 mis
	Rheoliad 16 (2) (b)	Cofnodi pob cwyn ar y cyfrifiadur	Joanne Tyler	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i'r practis ddatblygu polisi/gweithdrefn er mwyn sicrhau bod y safle yn addas i'r diben.</p> <p>Rhaid i'r practis adolygu ei drefniadau diogelwch tân er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y canlynol:</p>	<p>Rheoliad 8 (c)</p> <p>Rheoliad 5 (a) (b)</p> <p>Rheoliad 22 (2) (a)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd</p>	<p>Llunio polisi ar yr adeilad a'i roi ar waith</p> <p>Asesiad Risg Tân i'w gynnal gan</p>	Alison Jones	3 Mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Adolygu'r asesiad risg tân Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant tân Cynnal ymarferion tân rheolaidd Rhoi polisi diogelwch tân ar waith Sicrhau mynediad hawdd i allanfeydd tân bob amser <p>Rhaid i'r practis osod bin cynhyrchion misglwyf yn y toiled i gleifion.</p>	a diogelwch;	<p>Blackwood Fire</p> <p>Sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd a'i fod yn cael ei ddiweddarau mewn cyfarfodydd staff. Gwneud hyn yn ystod cyfarfodydd staff</p> <p>Llunio polisi diogelwch tân</p> <p>Gwirio mynediad yn ddyddiol</p> <p>Cysylltwyd â Canon Hygiene ac mae bin yn y toilet erbyn hyn</p>	<p>Alison Jones</p> <p>Joanne Tyler</p> <p>Joanne Tyler</p>	<p>3 Mis</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>3 Mis</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod waliau'r ystafell ddihalogi yn addas at eu diben a bod modd eu glanhau'n effeithiol.</p> <p>Dylai'r practis ystyried gosod sinc golchi dwylo yn yr ystafell ddihalogi.</p>	<p>Rheoliad 13 (6) (a) (b) (i)</p> <p>Safonau lechyd a Gofal 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Adnewyddu'r décor</p> <p>Gosod sinc penodol</p>	<p>Alison Jones</p> <p>Alison Jones</p>	<p>3 mis</p> <p>3 mis</p>
Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion yn cael	Rheoliad 31 (1) (2) (b) (3) (a) (b)	Lluniwyd rhestr wirio	Joanne Tyler	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>eu cadw a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyffuriau a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf.</p> <p>Rhaid i'r practis dynnu'r eitemau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio o'r bocs cymorth cyntaf a rhoi rhai newydd yn eu lle a chynnal gwiriadau rheolaidd ar y cynnwys er mwyn sicrhau bod yr eitemau o fewn eu dyddiadau defnyddio.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant dadebru cardiobwlmonaidd yn flynyddol.</p> <p>Rhaid i'r practis roi polisi argyfyngau meddygol ar waith a sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r manylion.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cael y ddogfennaeth briodol ar gyfer trosglwyddo meddyginiaeth sydd wedi darford i'w waredu.</p>	Safonau Iechyd a Gofal 2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Rhodddwyd eitemau newydd yn lle'r hen rai a chaiff gwiriadau rheolaidd eu cynnal a'u cofnodi</p> <p>Cynhelir hyfforddiant dadebru yn flynyddol</p> <p>Polisi i'w lunio</p> <p>Sicrheir y ddogfennaeth</p>	<p>Joanne Tyler</p> <p>Joanne Tyler Lubas Medical Alison Jones</p> <p>Joanne Tyler</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>3 Mis</p> <p>6 mis</p>
Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi diogelu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys manylion	Rheoliad 14 (1) (b) (c)	Diweddarau'r Polisi	Alison Jones	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>cyswllt yr awdurdodau diogelu oedolion a phlant perthnasol.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal 2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff wedi'i gofrestru ar gyfer E-ddysgu Cymru</p>	<p>Alison Jones</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y deintyddfydd sy'n cynnwys sicrhau bod yr holl ddeunyddiau deintyddol o fewn eu dyddiadau defnyddio, ac yn ddiogel i'w defnyddio. Rhaid cael gwared â'r holl ddeunyddiau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio ar unwaith</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff clinigol yn cael hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p>	<p>Rheoliad 13 (2)(a) (b)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal 2.9</p> <p>Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol</p>	<p>Caiff yr holl ddeunyddiau eu gwirio'n rheolaidd erbyn hyn, ynghyd â gwiriadau misol ar offerynnau</p> <p>Dylai pob aelod o'r staff clinigol gael hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio</p>	<p>Zara Kaplan</p> <p>Alison Jones</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>3 mis</p>
<p>Dylai'r practis ystyried cynnwys archwiliadau rhoi'r gorau i smygu a rhagnodi gwrthfotigau fel rhan o'i raglen gyffredinol.</p> <p>Rhaid i'r practis ddatblygu a gweithredu polisïau ar y trefniadau ar gyfer derbyn cleifion a'r</p>	<p>Rheoliad 16 (1) (a)</p> <p>Rheoliad 8 (1) (a) (b)</p> <p>Safonau Iechyd a</p>	<p>Caiff archwiliadau eu cynnal a'u hargymell</p>	<p>Alison Jones</p>	<p>Blwyddyn</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
trefniadau ar gyfer asesu cleifion, gwneud diagnosis a'u trin.	Gofal 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Caiff polisi ei lunio yn unol â'r canllawiau	Alison Jones	3 Mis
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr holl ffeiliau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol a sensitif eu cadw'n ddiogel.	Rheoliad 20 (2) (a) Safonau Iechyd a Gofal 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	Caiff pob ffeil ei gadw dan glo dros nos	Kelly Jenkins	Cwblhawyd
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion eu cadw'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	Rheoliad 20 (1) (a)(i)(ii) Safonau Iechyd a Gofal 3.5 Cadw Cofnodion	Cynhaliwyd archwiliad o'r cofnodion a gedwir a nodwyd meysydd a gwnaed nodiadau ar feysydd sy'n peri pryder	Alison Jones	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r practis rannu copïau o gofnodion cyfarfodydd â'r staff a gofyn iddynt eu llofnodi i ddangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.	Safonau Iechyd a Gofal Llywodraethu, Arweinyddiaeth	Ar ôl cyfarfodydd staff, bydd pob aelod o'r staff yn cael copi o'r cofnodion a chedwir copïau yn eu ffeiliau.	Joanne Tyler	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	ac Atebolrwydd			
Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd a bod Cynlluniau Datblygu Proffesiynol wedi'u nodi fel canlyniad.	Rheoliad 17 (4) Safonau Iechyd a Gofal 7.1 Y Gweithlu	Arfarniadau a CDP i'w gwneud yn flynyddol ac wrthi'n cael eu gwneud ar hyn o bryd	Joanne Tyler	3 Mis

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Alison Jones

Swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 20 Mawrth 2019